**Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru)**
**Y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Weithrediadau, Canllawiau a Hyfforddiant**

**Parc Cathays, Caerdydd**

**Dydd Mawrth 25 Chwefror 2020**

**Crynodeb o'r Cyfarfod**

## 1. Croeso a Chyflwyniadau

Estynnodd Llywodraeth Cymru (LlC) groeso i bawb i'r cyfarfod a chyflwynodd yr aelodau eu hunain.

## 2. Cofnodion a chamau gweithredu'r cyfarfod blaenorol

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ym mis Medi 2019.

## 3. Y Diweddaraf am y Bil a'i Statws Gweithredu

Rhoddodd LlC y diweddaraf am sefyllfa bresennol y Bil. Erbyn hyn, mae'r Bil wedi pasio Cyfnod 4 a disgwylir cael Cydsyniad Brenhinol ym mis Mawrth 2020.

## 4. Y Diweddaraf am Gyfathrebu

Rhoddodd LlC y diweddaraf am weithgarwch cyfathrebu'n ymwneud â'r Bil, sy'n rhoi dyletswydd ar Lywodraeth Cymru i godi ymwybyddiaeth. Cafwyd llawer o sylw ar y cyfryngau, yn enwedig ar adegau allweddol ym mhroses y Cynulliad, ac mae hyn wedi codi ymwybyddiaeth o'r Bil.

Bu'r aelodau'n trafod y dasg o godi ymwybyddiaeth ymhlith pobl sy'n ymweld â Chymru, a hefyd ymhlith gweithwyr proffesiynol, cymunedau anos eu cyrraedd, a phlant a phobl ifanc. Bydd LlC yn cyflwyno'r diweddaraf yng nghyfarfodydd y dyfodol.

## 5. Y diweddaraf am y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar y Cynllun Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys

Rhoddodd LlC y diweddaraf am waith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar y Cynllun Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys. Bu'r aelodau'n trafod data nad yw'n ymwneud ag euogfarnau, ynghyd â phroses yr heddlu a bennir yn y Memorandwm Esboniadol. Roedd swyddogion Llywodraeth Cymru i fod i gyfarfod â chydweithwyr o'r pedwar heddlu cyn i gyfarfod nesaf y grŵp gael ei gynnal ar 19 Mawrth.

## 6. Trafodaeth yn ymwneud â'r ymarfer mapio canllawiau a hyfforddiant

Diolchodd LlC i bawb a ddychwelodd y templedi canllawiau a hyfforddiant a ddosbarthwyd i aelodau'r Grŵp.

Bu'r aelodau'n trafod yr angen i archwilio sut caiff Gweithdrefnau Diogelu Cymru a modiwlau hyfforddi cysylltiedig eu diweddaru. Mae Bwrdd Prosiect Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn cyfarfod bob chwarter, a gellid gofyn iddo ystyried sut a phryd dylai gwybodaeth am y gyfraith newydd gael ei hymgorffori yn y gweithdrefnau neu'r

hyfforddiant cysylltiedig. Awgrymwyd y gellid ychwanegu arweiniad arferion at Weithdrefnau Diogelu Cymru er mwyn cynnig canllawiau amlasiantaethol penodol ar ddelio ag achosion o gosb gorfforol ar ôl y newid yn y gyfraith.

Byddai’n fuddiol paratoi a dosbarthu taflen wybodaeth un dudalen o hyd yn benodol ar gyfer gweithwyr proffesiynol, yn sôn am y newid yn y gyfraith. Ar gyfer gweithwyr iechyd proffesiynol, cyfrifoldeb Iechyd Cyhoeddus Cymru yw darparu pecyn e-ddysgu ar wahanol lefelau. Bydd angen i’r sector addysg bellach a’r sector addysg uwch fod yn ymwybodol o’r Bil er mwyn iddynt allu ei ymgorffori ym meysydd llafur cyrsiau proffesiynol.

Bydd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn ystyried y newid yn y gyfraith wrth ddiweddaru’i ganllawiau, ac yn ôl pob tebyg bydd angen ymgysylltu a hyfforddiant pwrpasol ar gyfer ymarferwyr yng Ngwasanaeth Erlyn y Goron a chymdeithasau a phroffesiynau’r gyfraith. Mae pennu safonau ar gyfer gwasanaeth yr heddlu o ran hyfforddiant, datblygiad, sgiliau a chymwysterau yn rhan o gylch gwaith y Coleg Plismona.

## 7. Cwmpas y grŵp a datblygu cynllun gwaith

Bu’r aelodau’n trafod diben a chwmpas y Grŵp ar Weithrediadau, Canllawiau a Hyfforddiant, a chytunwyd y dylid newid neu fireinio’r cylch gorchwyl i adlewyrchu’r gorgyffwrdd a’r rhyngddibyniaethau gydag agweddau ar waith grwpiau gorchwyl a gorffen eraill. Dylai’r Grŵp ar Weithrediadau, Canllawiau a Hyfforddiant fod â throsolwg o’r prosesau sy’n gysylltiedig â chanllawiau a hyfforddiant. Dylai rôl y Grŵp ar Weithrediadau, Canllawiau a Hyfforddiant gynnwys pennu sectorau y mae angen eu gwneud yn ymwybodol o’r newid yn y gyfraith at ddibenion eu meysydd gwaith, ynghyd â darparu’r wybodaeth mae ar gyrff allweddol ei hangen i’w cynorthwyo i ddiweddaru canllawiau a hyfforddiant yn eu sector.